**Ymateb Ysgrifenedig i'r Pwyllgor**

**Y Pwyllgor Menter a Dysgu**

**Adroddiad ar ystyriaeth y Pwyllgor o'r Ddeiseb Tanwydd a Chludo Nwyddau ar Ffyrdd**

**Ionawr 2009**

## Crynodeb Gweithredol

Rwyf yn ddiolchgar dros ben i'r Pwyllgor Menter a Dysgu am eu gwaith a'r argymhellion defnyddiol ar gystadleurwydd a chynaliadwyedd y diwydiant cludo nwyddau ar ffyrdd yng Nghymru.

Mae yna heriau penodol yn wynebu'r diwydiant cludo nwyddau o ran ei allu i gystadlu gan fod yr hinsawdd economaidd yn effeithio nid yn unig ar y diwydiant ond hefyd ar y cwsmeriaid niferus sydd yn eu tro yn defnyddio'r diwydiant cludo nwyddau ar ffyrdd yn ei holl agweddau. Mae hyn yn cyd-fynd â'r mawr angen i'r sector wneud cynaliadwyedd yn rhan ganolog o'i wasanaethau i gwsmeriaid.

Ers cyflwyno'r ddeiseb wreiddiol, mae'r newidiadau yn yr hinsawdd economaidd wedi gweld Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ymateb yn gadarnhaol i gefnogi busnesau bach. Mae hyn yn adlewyrchu ei hagwedd at gefnogi diwydiant yn ei gyfanrwydd a fydd yn ei dro yn dod â manteision i'r sector cludo nwyddau. Rydym wedi nodi bod eco-yrru / SAFED yn un o'r meysydd y byddwn yn rhoi sylw iddynt yng nghyd-destun y Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol a'r targed lleihau allyriadau carbon.

Mae Strategaeth Drafnidiaeth Cymru yn nodi Porthladdoedd sydd â'r capasiti i wireddu eu potensial a gwella'u cysylltiadau â'r diwydiant cludo nwyddau.

Fel y nodir isod, rwyf wedi derbyn dau o'r argymhellion ac rwyf yn derbyn y ddau argymhelliad arall mewn egwyddor.

## Ymatebion Manwl

Amlinellir isod yr ymatebion manwl i argymhellion yr adroddiad:

Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol:

1. Bod Llywodraeth Cynulliad Cymru, o ystyried y dirywiad economaidd presennol, yn ystyried ymestyn ymhellach y categorïau o fusnesau a gaiff eu cynnwys yn y cynllun rhyddhad ardrethi i fusnesau bach, a'i bod yn defnyddio'r holl bwerau sydd ar gael i gynorthwyo busnesau yn ystod y cyfnod anodd hwn.

**Ymateb: Derbyn**

Derbyniaf yr argymhelliad hwn am i'r Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach) (Cymru) 2008 ddod i rym ar 1 Rhagfyr 2008, gan ymestyn y cynllun cymorth y dreth i fusnesau bach. Mae'r cynlluniau canlynol yn arbennig o berthnasol:

- cynyddu'r trothwy ardrethol presennol o £5,000 i £6,500 ar gyfer y rhan fwyaf o hereditamentau busnes yng Nghymru sy'n gymwys ar gyfer rhyddhad ardrethi o 25%

- rhoi 25% o ryddhad i'r rhan fwyaf o safleoedd manwerthu (siopau, tafarndai, bwytai a gorsafoedd petrol) y mae eu gwerth ardrethol rhwng £6,501 a £9000, a hynny tan 2012.

- Byddwn hefyd yn cadw'r rhyddhad ardrethi o 50 y cant i fusnesau y mae eu gwerth ardrethol yn £2,000 neu lai;

**Goblygiadau Ariannol** - Dim uwchlaw'r hyn sydd ar gael mewn cyllidebau presennol.

Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol:

2. Bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn hysbysu'r Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig fydd yn cynnal yr adolygiad arfaethedig o borthladdoedd Cymru o'r angen am arolwg o borthladdoedd Cymru. Diben hyn fyddai penderfynu lle y gellir dod o hyd i gapasiti ychwanegol i wella hygyrchedd i gludiant nwyddau a hyrwyddo gweithrediad y diwydiant cludo nwyddau ar y ffyrdd yng Nghymru

**Ymateb: Derbyn**

Derbyniaf yr argymhelliad hwn yn rhannol. Mae Strategaeth Drafnidiaeth Cymru a Strategaeth Cludo Nwyddau Cymru yn cydnabod rôl porthladdoedd Cymru a defnyddio mwy arnynt i gludo nwyddau ar draws cysylltiadau môr byr. Er y byddwn yn rhoi tystiolaeth, os bydd gofyn i ni wneud i'r Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig, mater i Lywodraeth Cynulliad Cymru yw bwrw ymlaen â'i strategaeth ac ystyried unrhyw argymhellion a wneir gan y Pwyllgor Dethol.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ystyried bod gweithio mewn partneriaeth yn hanfodol i ddarparu'r holl wasanaethau cludo yng Nghymru, beth bynnag y cyfrwng ac yn enwedig wrth weithredu trwy gyfryngau lluosog.

**Goblygiadau Ariannol** – Nid ariennir costau gweithredu Strategaeth Cludo Nwyddau Cymru na'r cynlluniau gweithredu dilynol.

Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol:

> 3. Bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn defnyddio'r maniffesto plismona ffyrdd arfaethedig i roi gwybod am ei phenderfyniadau polisi strategol ar ddiogelwch ar y ffyrdd.

**Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**

Derbyniaf yr argymhelliad hwn mewn egwyddor. Mae diogelwch ar y ffyrdd a lleihau nifer yr anafiadau ar y ffyrdd yng Nghymru yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cynulliad Cymru, yn enwedig ar y draffordd a'r cefnffyrdd y mae ganddi gyfrifoldebau drostynt fel awdurdod priffyrdd. Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda'r Heddlu a VOSA i weld sut y gellir gwella'r materion penodol sy'n gysylltiedig â'r A55. Rwyf yn disgwyl cael golwg ar y maniffesto plismona ffyrdd. Wedyn bydd modd i mi ystyried sut y gall y maniffesto gyfrannu i benderfyniadau polisi strategol ar ddiogelwch ar y ffyrdd.

**Goblygiadau Ariannol** - Dim heblaw'r hyn sydd eisoes ar gael mewn cyllidebau presennol

Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol:

> 4. Bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn neilltuo digon o arian i sicrhau y gellir darparu hyfforddiant SAFED yng Nghymru.

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Derbyniaf yr argymhelliad hwn mewn egwyddor. Credaf fod angen mynd ati mewn modd mwy cydgysylltiol i fwrw ymlaen â'r technegau a'r safonau eco-yrru ar draws y sector trafnidiaeth yn ei gyfanrwydd. Ein nod cyffredinol yw nid yn unig annog gwell safonau gyrrau ond hefyd annog cludo mwy o nwyddau ar ddulliau cynaliadwy fel y rheilffyrdd.

Mae hyfforddiant gyrwyr ar gael yn fasnachol ac mae modd cael cyngor ar eco-yrru trwy wefan yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni. Dylai awdurdodau lleol ystyried y potensial ar gyfer cynnwys hyfforddiant a thechnegau eco-yrru fel rhan o'r gwaith o ddatblygu cynlluniau teithio yn y gwaith.

Yn ogystal, hoffwn ystyried sut y gallwn fwrw ymlaen â'r Rhaglen Arferion Gorau o ran Cludo Nwyddau yng Nghymru a sut y gallwn gydweithio â'n partneriaid i annog arferion eco-yrru trwy eu rhaglenni gwaith eu hunain.

Ystyrir bod Gyrru Diogel a Rhad-ar-Danwydd (SAFED) yn elfen o ddull mwy cydgysylltiol a chyffredinol sy'n annog y gweithredwr cludo nwyddau a rhanddeiliaid eraill. Fodd bynnag, nid oes modd i mi neilltuo arian ar gyfer hyfforddiant SAFED ar hyn o bryd.

**Goblygiadau Ariannol** –Nid oes arian ar gael mewn cynlluniau gwariant ar drafnidiaeth yn y dyfodol i fwrw ymlaen â SAFED yng Nghymru.

**Ieuan Wyn Jones AC,**
**Dirprwy Prif Weinidog**